Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Adeilad y Senedd

13 Chwefror 2019

**Cais am wybodaeth**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 24 Ionawr, pan wnaethoch ofyn:

*Dyma'r cwestiynau sydd gennyf am adeilad y Senedd.*
*Cwestiynau Rhyddid Gwybodaeth:*

1. *Faint o baneli gwydr (hy ffenestri - mewnol ac allanol – y mae angen eu glanhau'n rheolaidd) sydd yn yr adeilad?*
2. *Pe baech yn tynnu'r holl baneli gwydr allan a'u gosod ochr yn ochr, faint y byddent yn ei fesur mewn troedfedd (neu fetrau) sgwâr?*
3. *Pa gwmni glanhau ffenestri sy'n cael ei gyflogi ar hyn o bryd i'w glanhau?*
4. *Beth yw maint yr adeilad ffisegol (uchder a chyfanswm arwynebedd y llawr mewn troedfeddi neu fetrau sgwâr)?*
5. *Faint mae'n ei gostio i lanhau'r holl baneli gwydr yn yr adeilad? Yn ddelfrydol, hoffwn wybod y gost flynyddol, ond os nad ydynt yn cael eu glanhau bob blwyddyn, yna byddwn yn ddiolchgar pe baech yn nodi'r gost bob tro y cânt eu glanhau.*
6. *Pa mor aml y caiff y paneli gwydr eu glanhau ac, ar gyfartaledd, faint o amser mae hyn yn ei gymryd a faint o lanhawyr sydd eu hangen?*
7. *A oes unrhyw beryglon penodol y mae angen i'r glanhawyr fod yn ymwybodol ohonynt wrth lanhau paneli gwydr yr adeilad? Neu a oed cyfarwyddiadau penodol a allai fod yn ddefnyddiol iddynt? (Er enghraifft, a oes angen defnyddio eitemau glanhau penodol, neu a oes eitemau na ellir eu defnyddio, neu a oes angen cymryd camau penodol oherwydd rhesymau iechyd a diogelwch.)*
8. *Faint sy'n cael ei wario, at ei gilydd, ar lanhau'r adeilad mewn unrhyw flwyddyn benodol? (ar ben y gost o lanhau'r paneli neu'r ffenestri gwydr).*
9. *Pwy sy'n talu am y gwaith glanhau hwn? (hy y trethdalwr neu wariant preifat)*

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 0300 200 6544
E-bost/Email: Ceisiadau-gwybodaeth@cynulliad.cymru
Information-request@assembly.wales

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

Dyma ein hymateb i'ch cwestiynau:

1. *Faint o baneli gwydr (hy ffenestri - mewnol ac allanol – y mae angen eu glanhau'n rheolaidd) sydd yn yr adeilad?*

Nid yw'r wybodaeth ar gael.

2. *Pe baech yn tynnu'r holl baneli gwydr allan a'u gosod ochr yn ochr, faint y byddent yn ei fesur mewn troedfedd (neu fetrau) sgwâr)?*

Nid yw'r wybodaeth ar gael.

3. *Pa gwmni glanhau ffenestri sy'n cael ei gyflogi ar hyn o bryd i'w glanhau?*

Mae'r gwaith o lanhau'r ffenestri yn cael ei gontractio ar hyn o bryd i Total Support Services sy'n is-gontractio'r gwaith i Clear Choice. Mae Total Support Services wedi'u cynnwys ar ein rhestr o gontractau.

4. *Beth yw maint yr adeilad ffisegol (uchder a chyfanswm arwynebedd y llawr mewn troedfeddi neu fetrau sgwâr)?*

Uchder mewnol = 14.5 metr.

Cyfanswm arwynebedd y llawr = 57,100 troedfedd sgwâr.

5. *Faint mae'n ei gostio i lanhau'r holl baneli gwydryn yr adeilad? Yn ddelfrydol, hoffwn wybod y gost flynyddol, ond os nad ydyn yn cael eu glanhau bob blwyddyn, yna byddwn yn gwerthfawrogi cael gwybod y gost bob tro y cânt eu glanhau.*

Y gost flynyddol o lanhau ffenestri'r Senedd yw £17,162.40.

6. *Pa mor aml y caiff y paneli gwydr eu glanhau ac, ar gyfartaledd, faint o amser mae hyn yn ei gymryd a faint o lanhawyr sydd eu hangen?*

Bydd tîm o 6 yn ymgymryd â'r prif waith glanhau bob chwarter, a bydd y gwaith yn cymryd 1-2 ddiwrnod.

7. *A oes unrhyw beryglon penodol y mae angen i'r glanhawyr fod yn ymwybodol ohonynt wrth lanhau paneli gwydr yr adeilad? Neu gyfarwyddiadau penodol a allai fod yn ddefnyddiol iddynt? (Er enghraifft, a oes angen defnyddio eitemau glanhau penodol, neu a oes eitemau na ellir eu defnyddio, neu a oes angen cymryd camau penodol oherwydd rhesymau iechyd a diogelwch.)*

Caiff system Mansafe Latchway ei defnyddio i ganiatáu mynediad diogel i rai lleoedd. Defnyddir sylweddau ecogyfeillgar ynghyd â dŵr wedi'i ddad-ïoneiddio.

8. *Faint sy'n cael ei wario ar lanhau'r adeilad yn gyffredinol mewn unrhyw flwyddyn benodol? (ar ben y gost o lanhau'r paneli neu'r ffenestri gwydr).*

Nid yw'r gost o lanhau'r swyddfeydd ar ystâd y Cynulliad yn cael ei dadansoddi fesul adeilad felly nid yw'r gost o lanhau adeilad y Senedd yn hysbys.

9. *Pwy sy'n talu am y gwaith glanhau hwn? (hy y trethdalwr/gwariant preifat)*

Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Yn gywir

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Ystyriwyd eich cais yn unol â’r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i’r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Rhowch wybod imi os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, dilynwch y canllawiau isod.

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch cais am wybodaeth?

Os ydych yn anfodlon ar sut y mae'r Cynulliad wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith i ddyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnol at y Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth yn:
Ceisiadau-gwybodaeth@cynulliad.cymru neu'n ysgrifenedig i
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Llywodraethu a Sicrwydd
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i’r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â’r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF